**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA LG 2505 20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

6 Awst 2020

Annwyl Mick

**FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL CYNLLUN Y TALIAD SYLFAENOL A CHYMORTH GWLEDIG O 2021 – Ymgynghoriad 31 Gorffennaf 2020 tan 23 Hydref 2020**

Cyhoeddais ymgynghoriad ar 31 Gorffennaf. Mae’n esbonio’r cynigion i sefydlu fframwaith rheoleiddio interim ar gyfer helpu ffermwyr o ddiwedd cyfnod gweithredu cytundeb gadael yr UE (31 Rhagfyr 2020) tan y caiff pwerau newydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) eu cyflwyno. Byddai'r cynigion hyn yn gweithredu'r pwerau yr ydym yn bwriadu eu gwneud trwy atodlen 5 o Fil Amaethyddiaeth y DU.

I weld y ddogfen ymgynghori, cliciwch yma: https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol.

Mae’r papur ymgynghori’n cynnig nifer o newidiadau mân ond arwyddocaol i’r fframwaith rheoleiddio (UE) a gedwir ar gyfer rheoli’r Cynllun Taliad Sylfaenol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru. Bydd yr ymatebion a geir yn effeithio ar gwmpas y ddeddfwriaeth Gymreig y bydd ei hangen i weithredu’r cynlluniau domestig newydd ar ôl 2020, wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau’r cyllidebau.

Ar ôl ymadael â’r UE ym mis Ionawr, fy mwriad oedd ymgynghori ddiwedd y gwanwyn ond bu’n rhaid gollwng yr amserlen oherwydd pandemig y Covid-19. Mae angen deddfwriaeth erbyn 31 Rhagfyr 2020 i sicrhau bod holl agweddau’r cynlluniau yn eu lle, yn enwedig o ran gorfodi safonau Trawsgydymffurfio yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid ar 1 Ionawr 2021. Rwy’n sylweddoli y bydd y cynigion o ddiddordeb i

lawer, felly rwyf am gynnal ymgynghoriad llawn o 12 wythnos, sy'n golygu bod angen ei ddechrau nawr.

Fel a ddisgrifir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaeth y DU, mae pwerau'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fel mesur dros dro inni allu parhau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru a sicrhau bod sectorau amaeth ledled y DU yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE, ac mae'r ymgynghoriad, fydd yn para tan 23 Hydref 2020, yn gyson â hynny.

Rwy'n disgwyl ymlaen at glywed barn y Pwyllgor am y cynigion hyn.  Maen nhw'n rhan bwysig o'r paratoadau ar gyfer ymadael â'r UE a byddant yn rhoi'r dilyniant a'r sefydlogrwydd mawr eu hangen ar ffermio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd digynsail a chyn trosglwyddo'n ffurfiol i'r cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir ar gyfer y dyfodol.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs